



www.ucac.cymru

Galwad am Dystiolaeth: dyfodol cymunedau Cymraeg (ffurflen ymateb)

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn gofyn am dystiolaeth am sut gellir cryfhau cymunedau Cymraeg.

Gallwch gyflwyno dystiolaeth neu safbwynt am unrhyw fater sydd yn eich tyb chi'n berthnasol i les cymunedau Cymraeg.

Ond gan fod y comisiwn yn awyddus i glywed am rai materion penodol, mae wedi llunio rhai cwestiynau i'ch cynorthwyo.

Nid oes rhaid i chi ymateb i bob cwestiwn. Cyflwynwch dystiolaeth lle mae gennych wybodaeth neu farn berthnasol.

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 13 Ionawr 2023

E-bost i: cymraeg@llyw.cymru

postio i:

Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Cymunedau Cymraeg
Is-adran Cymraeg 2050
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Cwestiynau i'ch helpu i ymateb

Sut dylid ymateb i newidiadau diweddar yng Nghymru?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi profi sawl newid pellgyrhaeddol. Gadawodd y Deyrnas Gyfunol yr Undeb Ewropeaidd, effeithiodd coronafeirws (COVID-19) ar ein cymunedau, lledaenodd arferion cymdeithasol newydd (fel gweithio o adref), ac mae argyfwng o ran costau byw ac ynni. Mae'n bosib y bydd rhai o'r newidiadau hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg.

Cwestiwn 1: Pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg (neu'r Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg) o ganlyniad i unrhyw un o'r datblygiadau hyn?

Sut gallwn ni dargedu cefnogaeth ar gyfer cymunedau Cymraeg yn y dull mwyaf effeithiol?

Mae'r Gymraeg o dan bwysau neilltuol mewn rhai rhannau o Gymru. Rydym yn awyddus i glywed syniadau am sut i ddarparu cefnogaeth ar gyfer cymunedau Cymraeg yn y dull mwyaf effeithiol.

**Targedu'r cymunedau lle mae'r Gymraeg yn gryf ar hyn o bryd a'u gwarchod rhag unrhyw ddirywiad.*

**Creu balchder ymhlith y bobl leol ynghylch yr iaith Gymraeg a chreu gwir awydd ynddynt i warchod yr iaith o fewn y gymuned, gan bwysleisio cyfrifoldeb pawb.*

**Gosod targed i gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg o fewn y gymuned a monitro hynny*

**Sicrhau digonedd o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'u Cymraeg mewn sefyllfaoedd naturiol.*

**Sicrhau bod digon o leoedd gwarchod plant cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â meithrinfeydd a chylchoedd chwarae Cymraeg*

**Sicrhau bod disgyblion o fewn y cymunedau hynny yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cael cyfleoedd y tu allan i'w gwersi i ymarfer y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, naturiol.*

**Gwella sgiliau'r disgyblion, drwy weithgareddau sy'n peri eu bod yn ymfalchïo yn eu hardal, eu treftadaeth a'u cymuned leol.*

**Creu cyfleoedd i bobl ifanc gael swyddi a fydd yn eu galluogi i aros yn eu cymunedau.*

**Annog y sawl sy'n medru'r Gymraeg i drosglwyddo'r Gymraeg i'r plant ar yr aelwyd*

**Addysgu rhieni di-Gymraeg am y cyfleoedd sydd i'w plant ymarfer eu Cymraeg i tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a thu hwnt i oriau ysgol (Hyrwyddo llyfrau, cylchgronau, rhaglenni, meddalwedd ayb)*

**Sicrhau bod y gallu i siarad Cymraeg yn ofynnol ar gyfer unrhyw swyddi*

Cwestiwn 2: Sut gallwn ni ddarparu cefnogaeth yn effeithiol ar gyfer cymunedau Cymraeg?

**Sicrhau cyllid digonol ar gyfer y gwasanaethau a nodir uchod*

**Sicrhau bod cymorth digonol ar gael i ddod o hyd i'r gwasanaethau a nodir uchod*

**Hyfforddiant a chefnogaeth i'r sawl sy'n darparu'r gwasanaethau uchod*

**Hybu unigolion i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn eu cymunedau, gan eu cynorthwyo'n ariannol ac mewn ffyrdd eraill*

**Sicrhau bod y dechnoleg fodern yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gynnal gweithgareddau yn y Gymraeg*

**Digon o gyfleoedd i ddysgu'r iaith a'i defnyddio'n ddyddiol*

Cwestiwn 3: Sut gallwn ni ddefnyddio polisïau rhanbarthol neu leol er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg?

**Sicrhau bod y Gymraeg yng nghanol unrhyw bolisi rhanbarthol a lleol a bod rhywun yn monitro'r polisïau hynny a bod lefel o atebolrwydd*

Cwestiwn 4: Pa swyddogaeth ddylai fod gan lywodraeth leol wrth gryfhau cymunedau Cymraeg?

**Arwain drwy esiampl – sicrhau eu bod yn rhoi statws i'r Gymraeg ac yn annog pobl i ymwneud â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg*

**Sicrhau bod digon o weithwyr o fewn yr Awdurdodau Lleol yn gyfangwbl ddwyieithog ac yn barod i arddel y Gymraeg*

**Normaleiddio'r Gymraeg*

**Cefnogi unrhyw fenter i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau lleol*

**Yn dilyn llunio CSGA sy'n gynllun deng mlynedd – sicrhau bod ymdrech wirioneddol ar waith i sicrhau bod y targedau a osodwyd yn cael eu gwireddu. Mynd i'r afael ag unrhyw beth sy'n atal gwireddu'r targedau hynny. Dylid adolygu'r CSGA yn rheolaidd, er mwyn gallu mynd i'r afael ag unrhyw lithriad oddi ar lwybr cynnydd ac ymateb yn syth i unrhyw angen*

**Sicrhau bod pob ystod oedran yn cael cyfleoedd digonol i ddefnyddio'r Gymraeg*

**Sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i hwyluso DEWIS cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylai pobl orfod gofyn am wasanaeth Cymraeg ac ni ddylai'r gwasanaethau Cymraeg fod o safon israddol ac ni ddylid gorfod aros yn hwy i gael mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg*

Meysydd polisi

Mae dyfodol y Gymraeg mewn cymunedau Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar gynaliadwyedd y cymunedau hyn. Golyga hynny fod rhaid i gamau o blaid y Gymraeg fod yn 'holistaidd' – mae'n rhaid iddynt ymwneud â sawl gwedd ar fywyd y gymdeithas, a chwmpasu sawl maes polisi.

Mae'r comisiwn yn awyddus felly i dderbyn tystiolaeth am berthynas y Gymraeg â gwahanol feysydd polisi.

Mae nifer o feysydd polisi wedi eu nodi isod. Nid yw pob maes wedi ei grybwyll, a gallwch gyflwyno tystiolaeth am feysydd nad ydynt yn cael eu henwi.

Yn y meysydd canlynol, pa bolisiâu y dylid eu cyflwyno er mwyn cryfhau cymunedau Cymraeg?

Cwestiwn 5: Adfywio

Cwestiwn 6: Addysg

- *Polisi a fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hysgolion a bod addysg Gymraeg ar gael ar hyd yr ystod oedran. Sicrhau darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion 3 oed*
- *Polisi o ran trochi disgyblion/hwyrddyfodiaid yn y Gymraeg*
- *Polisi a fydd yn rhoi cefnogaeth i rieni – dangos pwysigrwydd*
- *Alinio polisiâu, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu at wireddu targedau CSGA*
- *Gwneud gwaith ymchwil – pam mae disgyblion sydd wedi eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn troi cefn ar yr iaith; rhoi sylw i seicoleg iaith ac arferion ieithyddol ac ymateb i unrhyw ganfyddiadau*

Cwestiwn 7: Amaethyddiaeth / Defnydd Tir

Cwestiwn 8: Cynllunio Gwlad a Thref

Cwestiwn 9: Datblygu Cymunedol

Cwestiwn 10: Datblygu Economaidd

Cwestiwn 11: Tai

Cwestiwn 12: Unrhyw faes arall

Polisi iaith uniongyrchol

Mae'r comisiwn yn awyddus i dderbyn tystiolaeth am bolisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg.

Wrth 'bolisi iaith uniongyrchol', rydym yn golygu polisiau sy'n ceisio cryfhau'r Gymraeg fel iaith oddi mewn i gymunedau Cymraeg, yn hytrach na pholisiau sy'n ceisio cryfhau'r cymunedau eu hunain.

Cwestiwn 13: Pa mor effeithiol yw polisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg?

Nid yw polisi o ran ei hunan yn mynd i fod yn effeithiol os nad yw'n cael ei weithredu. Nid yw dogfen yn mynd i fod yn effeithiol os nad oes yna weithgaredd ymarferol i gefnogi'r ddogfen honno ac mae'n rhaid gwerthuso ac arfarnu polisi a gwneud newidiadau ac addasiadau yn ôl y gofyn.

Cwestiwn 14: Sut gallwn ni gryfhau polisi iaith uniongyrchol mewn cymunedau Cymraeg?

Sicrhau bod unrhyw bolisi yn cael ei weithredu. Lleihau biwrocratiaeth a chynyddu camau gweithredu ymarferol.

Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn cytgordd â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru?

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn awyddus i dderbyn tystiolaeth am sut i gryfhau cymunedau Cymraeg mewn modd sy'n cydblethu ag amcanion eraill Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn bwysig am fod rhaid i bolisïau o blaid cymunedau Cymraeg gwmpasu sawl maes. O ganlyniad, mae angen iddynt weithio yng nghydestun ehangach polisi cyhoeddus, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol ac hefyd i fabwysiadu polisïau amgylcheddol llesol. Yn yr enghraifft hon, byddai gennym ddiddordeb clywed am bolisïau sydd yn ogystal â chryfhau cymunedau Cymraeg hefyd yn llesol i'r amgylchedd.

Cwestiwn 15: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn modd sy'n cydblethu â rhai o amcanion eraill Llywodraeth Cymru?

**Sicrhau bod pob polisi sy'n hyrwyddo'r Gymraeg hefyd yn driw i'r egwyddorion hynny sydd wrth wraidd polisïau eraill*

Cwestiwn 16: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

**Sicrhau digon o weithgareddau celfyddydol, hamdden a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg*

**Yn y fersiwn o'r Ddeddf Llesiant sydd wedi ei chynhyrchu ar gyfer pobl ifanc, esbonnir nod llesiant 6 ('Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu') fel a ganlyn – 'pan fydd llawer o gyfleoedd gyda ni i wneud pethau gwahanol a phan fydd llawer o bobl yn siarad Cymraeg'. Mae angen sicrhau, felly, fod digon o weithgareddau o ran y celfyddydau, chwaraeon, gweithgareddau hamdden lle mae'r Gymraeg yn ganolog.*

**Pennu cerrig milltir penodol a glynu wrth y cerrig milltir hynny er mwyn hyrwyddo a hybu'r Gymraeg a'r defnydd ohoni.*

**Meddwl am ffyrdd gwahanol o wneud yr uchod, gan gofio'r datganiad yn y canllaw i bobl ifanc ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - ' Mae'n rhaid i ni wneud pethau'n wahanol er mwyn sicrhau newid'.*

**Angen bod yn rhagweithiol yn y cymunedau lle mae'r iaith yn gryf. Angen bod yn ymatebol yn y cymunedau lle gwelwyd dirywiad mawr o ran yr iaith.*

**Herio cynghorau cymunedol – beth y maent yn ei wneud i warchod ac i hybu'r Gymraeg*

**Sicrhau bod modelau rôl yn ein cymunedau a fydd yn gadarn dros y Gymraeg ac yn gallu hybu eraill i siarad yr iaith*

**Gweithio gyda mudiadau sy'n bodoli eisoes ac sy'n cynnal gweithgareddau ar hyn o bryd e.e. Urdd, CFFI ayb.*

**Cynnal y Gymraeg mewn rhai achosion, hybu mwy o Gymraeg mewn achosion eraill*

**Sicrhau bod pobl yn ymwybodol iawn o'r manteision o allu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

Pobl ifanc a theuluoedd ifanc mewn cymunedau Cymraeg

Mae diffyg cydbwysedd o ran oedran mewn sawl cymuned Gymraeg. Mae methiant i gadw pobl ifanc neu deuluoedd ifanc yn y cymunedau hyn, neu i ddenu ieuenctid neu deuluoedd i fyw yno, yn tanseilio'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Cwestiwn 17: Sut gallwn ni sicrhau cydbwysedd gwell o ran oedran mewn cymunedau Cymraeg, gan greu sefyllfa lle mae mwy o bobl ifanc a theuluoedd ifanc yn byw yno?

- *Sicrhau bod tai fforddiadwy i deuluoedd ifanc*
- *Sicrhau bod mynediad digonol at ofal plant – gwarchodwyr plant a meithrinfeydd*
- *Ysgolion da sy'n cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a digon o weithgareddau allgyrsiol yn ogystal ag addysg ffurfiol o'r safon orau*
- *Gweithgareddau ar gyfer plant ac ieuenctid*
- *Cymuned gyfeillgar lle mae cyfleoedd amrywiol a gwir deimlad cymunedol*
- *Sicrhau digon o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a chyfleoedd digonol i bobl ifanc barhau i ddefnyddio'r Gymraeg wedi iddynt ddod i ben â'u haddysg*
- *Sicrhau bod digon o swyddi addas sy'n cynnig cyflogau cystadleuol o fewn y cymunedau Cymraeg*

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg am weld cymunedau Cymraeg sy'n amrywiol, yn gynhwysol, ac o blaid cydraddoldeb.

Cwestiwn 18: Sut gallwn ni gryfhau cymunedau Cymraeg mewn ffordd sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth?

- *Cyfleu'r neges bod y Gymraeg i bawb a sicrhau bod gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywiol ac yn croesawu pawb – h.y eu bod yn gynhwysol*

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: [Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ni fydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud oni bai ei fod yn cael ei wneud o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal mewn modd priodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.